**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2019**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorwyr Merfyn Parry a Rhys Thomas. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDU TACSI | ***PENDERFYNWYD*** *y byddai aelodau'n -*<br><br>*(a) cymeradwyo'r ffioedd a'r taliadau a fanylir arnynt yn Atodiad A yr adroddiad;*<br><br>*(b) awdurdodi swyddogion i gyhoeddi'r newidiadau i'r ffioedd Trwyddedu Tacsi mewn papur newydd lleol ar gyfer yr ymgynghoriad angenrheidiol, ac os na dderbynir unrhyw wrthwynebiad, byddant yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2020.*<br><br>*(c) lle derbynnir unrhyw wrthwynebiadau, gofyn i'r Pwyllgor Trwyddedu ystyried y gwrthwynebiadau hynny yn eu cyfarfod nesaf gyda'r bwriad o weithredu (gyda neu heb addasiad) dim hwyrach nag 1 Ebrill 2020.* |
| **6** | ADOLYGU'R BROSES GORSAFOEDD PROFI CYMERADWY PRESENNOL | ***PENDERFYNWYD*** *i edrych ar broses profi mewnol fel dewis a ffafrir ond yn amodol ar adolygiad ac ymgynghoriad pellach gyda'r holl bartïon perthnasol.* |
| **7** | ADOLYGIAD O BOLISI A GWEITHDREFN PWYNTIAU | ***PENDERFYNWYD*** *y byddai aelodau'n -* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | COSB | *(a) cefnogi cael gwared â'r broses Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb ac*<br><br>*(b) Y byddai swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu ym mis Mawrth 2021 drwy eu Hadroddiad Blynyddol, i drafod ffurf gymharol yr effeithiolrwydd rhwng y ddwy system.* |
| **8** | POLISI ARFAETHEDIG CASGLIADAU DRWS I DDRWS | ***PENDERFYNWYD –***<br><br>*(a) y byddai'r Polisi Casgliadau Drws i Ddrws (Atodiad A yr adroddiad) yn cael ei gefnogi a bod swyddogion yn cymeradwyo cychwyn ymgynghoriad ffurfiol gyda chyrff elusennol sydd wedi gwneud cais ac wedi casglu o fewn y sir yn y 12 mis diwethaf, ac*<br><br>*(b) yn dilyn ymgynghoriad, bod y swyddogion yn adrodd unrhyw wrthwynebiadau a chymeradwyaeth i'r Pwyllgor Trwyddedu o'r polisi newydd, neu os nad oed unrhyw ymatebion yn dod i law, i gymeradwyo mabwysiadu'r Polisi Casgliadau Drws i Ddrws o 1 Ebrill 2020 ymlaen.* |
| **9** | POLISI CASGLIADAU STRYD ARFAETHEDIG | ***PENDERFYNWYD –***<br><br>*(a) y byddai'r Polisi Casgliadau Stryd arfaethedig (Atodiad A yr adroddiad) yn cael ei gefnogi a bod swyddogion yn cymeradwyo cychwyn ymgynghoriad ffurfiol gyda chyrff elusennol sydd wedi gwneud cais ac wedi casglu o fewn y sir yn y 12 mis diwethaf, ac*<br><br>*(b) yn dilyn ymgynghoriad, bod y swyddogion yn adrodd unrhyw wrthwynebiadau a chymeradwyaeth i'r Pwyllgor Trwyddedu o'r polisi newydd, neu os nad oed* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *unrhyw ymatebion yn dod i law, i gymeradwyo mabwysiadu'r Polisi Casgliadau Stryd o 1 Ebrill 2020 ymlaen.* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y mae yn atodiad i'r adroddiad.* |